2480LlwynywermodBookletPages(W)a-wJW:Layout 1 22/9/09 18:59 Page 1

LLWYNYWERMOD

SIARAD CYMRU
DYFODOL CYNALADWY

WYTHNOS ELUSENAU TYWYSOG YN LLWYNYWERMOD
MEDI 28 TAN HYDREF 2F 2009

Yn Llwynywermod, cartref Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn Sir Gaerfyrddin, bydd Elusennau'r Tywysog yng Nghymru yn cynnal cyfres o seminarau lefel uchel. Yn y seminarau bach hyn bydd prif ymarferwyr polisi yn dod at ei gilydd i drafod sut i ddatblygu'r themâu hynny sy'n allweddol i lunio dyfodol Cymru.

Gyda'i gilydd bydd Elusennau'r Tywysog a'u partneriaid yn hoelio'u sylw ar amryw o faterion gan gynnwys diweithdra ymhlith pobl ifanc, cyfraniad economaidd pobl hŷn, cysylltiadau busnes ac addysg, rhoi cyfrif am gynaliadwyedd, y newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd adeiledig, adfywio cefn gwlad ac iechyd gwledig. Caiff canlyniadau'r wythnos eu gweithredu drwy Elusennau'r Tywysog yng Nghymru ac anfonir adroddiad ffurfiol at Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru. Bydd modd gweld ffrwyth y seminarau a'r adroddiadau am hynt y gwaith ar y wefan ganlynol: www.princescharities.org Hefyd, caiff y canlyniadau eu dosbarthu drwy 'Agenda', cylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig.

Gobeithir y bydd hon yn wythnos flynyddol. Bydd digwyddiadau'r wythnos yn cael eu cynnal yn amgylchedd hanesyddol Llanymddyfri, lle bydd harddwch yr ardal ac ansawdd y bwyd lleol yn ysbrydoli partneriaethau a all gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy i Gymru. Yn ogystal â'r seminarau yn Llwynywermod, cynhelir hefyd ddau ddigwyddiad cyhoeddus yn nhref Llanymddyfri.

Yr elusennau a'r mentrau sy'n cymryd rhan yw: Cyfrif am Gynaliadwyedd, Celfyddydau a Busnes, Busnes yn y Gymuned, Menter Mynyddoedd Cambria, Prime Cymru, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, Sefydliad y Tywysog ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig, Sefydliad y Tywysog ar gyfer Iechyd Integredig, Athrofa'r Tywysog, Menter Fforestydd Glaw y Tywysog, a'r Dreigiau Ifanc.

Cynhelir yr wythnos gyda chefnogaeth garedig Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig, Coutts & Co, HSBC, Banc America, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Tref Llanymddyfri, Coleg Llanymddyfri, Sefydliad Bevan a'r Sefydliad Materion Cymreig.

Edrychwn ymlaen at glywed eich safbwyntiau

Dr Manon Williams
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat Eu Huchelder Brenhinol Tywysog Cymru a Duges Cernyw

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â
Peter Davies
peter@pdpartnership.co.uk
01834 814955

2480LlwynywermodBookletPages(W)a-wJW:Layout 1 22/9/09 18:59 Page 2

Rhaglen Gair am Gymru

Dydd Llun 28 Medi

10.00 – 3.30
Sut i gynyddu lefelau gweithgaredd economaidd pobl hŷn yng Nghymru
Trafodaeth bord gron ar bolisi dan arweiniad Prime Cymru ar y cyd â Sefydliad Bevan

10.30 – 12.30
Cyflogadwyedd a Symudedd Pobl Ifanc
Dan arweiniad Ymddiriedolaeth y Tywysog a Busnes yn y Gymuned
Cadeirir y cyfarfod gan Steve Thomas, Cadeirydd Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru

Amser Cinio
Adeiladu cymunedau cryfach mewn cyfnod anodd
Y Fonesig Julia Cleverdon, Is-lywydd Busnes yn y Gymuned a Chadeirydd Tasglu Adeiladu Cymunedau Cryfach Llywodraeth y Deyrnas Unedig

2.30 – 5.00
Buddsoddi yn natblygiad athrawon
Dan arweiniad Athrofa'r Tywysog

6.30 – 10.00
Busnes, Addysg a Datblygiad Economaidd
Fforwm drafod dros swper a drefnir gan HSBC

Dydd Mawrth 29 Medi

10.30 – 12-30
Gweithredu'n gynaliadwy – Llywodraethu da sy'n werth y byd
Seminar a drefnir gan Cyfrif am Gynaliadwyedd Tywysog Cymru a'r Gymdeithas Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA). Bydd Jessica Fries o Cyfrif am Gynaliadwyedd a Roger Adams, Cyfarwyddwr Gweithredol ACCA yn cymryd rhan

2.30 – 4.30
Busnesau'n Gweithredu ar Newid Hinsawdd
Dan arweiniad Busnes yn y Gymuned ac yn cynnwys tîm arweinyddiaeth busnes Menter Calan Mai Tywysog Cymru

6.30 – 9.30
Ein Dyfodol Ni a Dyfodol y Fforestydd Glaw
Menter Fforestydd Glaw y Tywysog
Noson agored yng Ngholeg Llanymddyfri fydd yn cynnwys Menter Fforestydd Glaw y Tywysog
Noddir gan y Sefydliad Materion Cymreig

2480LlwynywermodBookletPages(W)a-wJW:Layout 1 22/9/09 18:59 Page 3

Dydd Mercher 30 Medi

Diwrnod Datblygu Mynyddoedd Cambria
Yn cynnwys partneriaid Menter Mynyddoedd Cambria
Noddir gan HSBC

10.00 – 12.00
Datblygu potensial Mynyddoedd Cambria ar gyfer twristiaid
Dan arweiniad Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru
Cadeirydd – Paul Loveluck

10.00 – 12.00
Datblygu potensial cynnyrch lleol Mynyddoedd Cambria
Cadeirydd – Gareth Rowlands

10.00 – 12.00
Datblygu potensial gwasanaethau System Eco'r Mynyddoedd Cambria
Cadeirydd – John Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Gweithdai Grwpiau Tasg

Amser Cinio
Mynyddoedd Cambria – Ymdeimlad o le
Cyflwyniad gan yr Athro David Austin

2.00 – 4.30
Datblygiadau cymunedol ym Mynyddoedd Cambria
Gweithdy cynllunio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned ac o'r awdurdodau lleol

3.00 – 5.00
Ystrad Fflur
Trafodaeth bord gron gyda Sefydliad y Tywysog ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig

Min Nos
Noson Bwyd Lleol
Cyfle i gyfarfod cynhyrchwyr lleol a busnesau lletygarwch fel rhan o Bythefnos Bwyd Prydain Gyda chefnogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin a Mudiad Slow Food y Deyrnas Unedig

2480LlwynywermodBookletPages(W)a-wJW:Layout 1 22/9/09 18:59 Page 4

Dydd Iau 1 Hydref

Canolbwyntio ar yr Amgylchedd Adeiledig

10.00 – 12.30
Adeiladau gwledig gwag – Adnodd nas defnyddir
Dan arweiniad Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog, ar y cyd ag Adfer Ban a Chwm Gyda chefnogaeth y Sefydliad Materion Cymreig

2.00 – 4.30
Cynnwys cynaliadwyedd yn y gadwyn gyflenwi
Dan arweiniad Sefydliad y Tywysog ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig

7.00 – 9.30
Gweithdy Cynllunio Cymuned Llanymddyfri
Cynhelir gan Gyngor Tref Llanymddyfri a'r Sefydliad ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig Gwesty'r Castell, Llanymddyfri

Dydd Gwener 2 Hydref

10.00 – 3.30
Iechyd a lles cynaliadwy yng nghefn gwlad – agenda integredig i bawb
Dan arweiniad Sefydliad y Tywysog ar gyfer Iechyd Integredig ar y cyd â'r Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol a'r Sefydliad Iechyd Gwledig

Ymhlith y cyfranwyr fe fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Thema'r dydd fydd gofal iechyd integredig yng nghyd-destun iechyd a lles gwledig ac ysgogi trafodaeth ynghylch datblygu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus integredig. Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- Iechyd a lles yn yr ysgol
- Esgyrn am Oes
- Mae iechyd gwledig yn rhywbeth i bawb
- Diogelu esgyrn brau – strategaeth ac arferion da lleol yng Nghymru
- Lles a'r awyr agored